**EITEM AR YR AGENDA: 10**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Rhagfyr 2011**

**Y Diweddaraf am Reoli Parhad Busnes yn dilyn y Gweithredu Diwydiannol ar 30ain Tachwedd 2011**

**Adroddiad gan Ruth Simmons, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi manylion am y broses o baratoi ar gyfer effeithiau'r gweithredu diwydiannol diweddar ynglŷn â'r newidiadau i bensiynau'r sector cyhoeddus.

## Y Cefndir

2 Yn ystod Cynhadledd Cyngres yr Undebau Llafur (y TUC) ym mis Medi 2011, cafwyd cynnig i gynnal diwrnod cenedlaethol o weithredu ddydd Mercher 30ain 2011 er mwyn ymateb i'r newidiadau i'r trefniadau pensiwn.

3 Yn fuan wedi hynny, derbyniodd Clerc yr Awdurdod ohebiaeth gan Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr FBU ynglŷn â chofrestru anghydfod llafur gyda'r Gwasanaeth ynglŷn â'r mater.

4 Gan ragweld tarfiad posib a mawr i wasanaethau, trodd y Prif Swyddog Tân at y Cynllun Absenoldebau/Tarfiadau Mawr, a chynnal cyfres o gyfarfodydd o'r Grŵp Cynllunio Rheoli Parhad Busnes (BCMPG). Y grŵp hwn yw Tîm Cynghori'r Prif Swyddog, Rheolwyr Maes a Phenaethiaid Adrannau. Roedd y camau cychwynnol yn cynnwys llunio Cofrestr Risg er mwyn cynorthwyo i gynllunio, cofnodi penderfyniadau, a chyfrannu at gael dull cyson rhwng y tri gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru.

## Gwybodaeth

5 Ar 19eg Hydref, ysgrifennodd Undeb yr FBU at y Prif Swyddog Tân i gadarnhau na fyddai, o ganlyniad i drafodaethau pellach gyda Llywodraeth Prydain, unrhyw weithredu diwydiannol yn cael ei gynnal yn fuan, gan gynnwys cymryd rhan yn y gweithredu arfaethedig ar 30ain Tachwedd 2011. Yna, cadarnhawyd y byddai Unsain ac Unite yn cymryd rhan, gan gyfyngu'r effaith yn bennaf i swyddogaethau'r ochr gefnogol.

6 Parhaodd y Grŵp Cynllunio i gyfarfod er mwyn sicrhau ymateb priodol i'r gweithredu diwydiannol arfaethedig, ac er mwyn profi cynlluniau parhad y Gwasanaeth. Crëwyd strategaeth gyfathrebu a oedd yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd, a chanllawiau ar gyfer rheolwyr llinell a gweithwyr a oedd yn ystyried cymryd rhan yn y digwyddiad. Adolygwyd yr holl drefniadau ar gyfer ymdrin â galwadau, gweithgarwch diogelwch cymunedol, ac ymateb yr ochr weithredol, a hynny o fewn cyd-destun absenoldeb ar raddfa fawr gan asiantaethau partner. Ar 10fed Tachwedd, cynhaliodd y Gwasanaeth ymarferiad er mwyn sicrhau bod y paratoadau yn briodol ac yn ddigonol.

7 Ar 28ain Tachwedd, cymerodd un o swyddogion y Gwasanaeth ran mewn telegynhadledd gyda Phrif Weithredwyr yr ardal er mwyn cadarnhau'r trefniadau ar gyfer y diwrnod o weithredu.

8 Er bod 38 o staff GTAGC yn gymwys i gymryd rhan, dim ond 8 o unigolion a wnaeth hynny. Oherwydd y niferoedd a gymerodd ran, bychan iawn oedd yr effaith ar wasanaethau.

9 Ar ôl ystyried y gwersi a ddysgwyd, ac effeithiau'r gweithredu diwydiannol ar ddefnyddwyr y gwasanaeth a phob un o feysydd swyddogaeth yn y sefydliadau, safodd y Grŵp Cynllunio i lawr mewn cyfarfod ar 2ail Rhagfyr.

10 Gall yr Aelodau fod yn sicr fod y trefniadau ar gyfer rheoli parhad busnes ar adeg tarfiad mawr wedi cael eu profi'n drylwyr, ac mae unrhyw welliannau wedi eu gwneud i'r trefniadau, lle bo hynny'n briodol.

## Argymhelliad

11 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.